# THEMA: Bod yn Arwr Ynni

## CEFNDIR

*Nod y sesiwn yw ymchwilio i bwysigrwydd deall ynni yn yr ysgol*

*Erbyn diwedd y sesiwn, dylai disgyblion fedru:*

- *Deall sut gaiff ynni ei greu*
- *Gweld pa gamau cadarnhaol y mae'r ysgol eisoes yn eu cymryd er budd yr amgylchedd a dod o hyd i feysydd lle gallai'r ysgol wneud yn well*
- *Deall faint o ynni mae'r ysgol yn ei ddefnyddio a sut mae hynny'n newid yn ystod gwahanol dymhorau o'r flwyddyn*
- *Trafod amryw ffyrdd o gynorthwyo'r ysgol i ddefnyddio llai o ynni.*

**Yr Helfa Ynni (Gweithgaredd Un)**


Dewch o hyd i'r arolwg ynni yn y pecyn a gawsoch chi gyda chynllun y wers hon – y teitl ydi 'Arolwg Ynni'.


Mae'r cyfarwyddiadau yn yr arolwg a gallwch wneud y dasg yn haws neu'n anos drwy ddilyn y rhan o gynllun y wers ynglŷn ag 'Addasu'r Gweithgareddau'.

**Dirgelwch yr Ynni (Gweithgaredd Dau)**

Camau i gael mynediad at *Digital Energy* a dogfen ganllawiau.

- Holwch a oes gan yr ysgol gyfrif yn barod. Bydd gan y dderbynfa neu'r gofalwr gyfrif fel arfer.
- Os nad oes ganddynt un, anfonwch e-bost i'r Uned Ynni (energy.unit@siryfflint.gov.uk)
- Ar ôl creu cyfrif, dilynwch y cyfarwyddiadau yn yr e-bost.
- Unwaith y cewch chi fynediad, dylech fedru gweld panel â gwybodaeth am ynni yn eich ysgol.
- Sgroliwch i lawr y tudalen i weld y graffiau
- Wedyn fe welwch chi'r graff mewn sgrin lawn – yn dangos swm yr ynni a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn gyfredol.
- Cliciwch y saeth ar yr ochr chwith i weld swm yr ynni a ddefnyddiwyd mewn blwyddyn gyfan (2024-2025)
- Hofrwch dros un o'r misoedd i weld y data ar ei gyfer
- Ysgrifennwch ffigurau bob mis am y flwyddyn a llunio dwy echelin yn barod i'r disgyblion greu eu graffiau (os oes angen).
- Os hoffech chi lawrlwytho'r ddelwedd neu ddogfen Excel ar gyfer y graff, cliciwch ar y tair llinell.




- Gallwch hefyd addasu'r graff i ddangos y gwahanol fathau o ynni y mae'r adeilad yn eu defnyddio os ydych chi'n cynnal prosiect mwy hirdymor, gan y bydd modd ichi weld mwy o newid yn yr ynni a ddefnyddir.

**Pam y defnyddir gwahanol symiau o ynni yn ystod y flwyddyn:**

**Defnyddio mwy o ynni yn y gaeaf:**

- Mae angen mwy o wres i gadw’r ysgol yn gyfforddus.
- Mae angen mwy o olau.

**Defnyddio llai o ynni yn yr haf:**

- Mae angen llawer iawn yn llai o wres i fod yn gyfforddus
- Mae’n llawer iawn goleuach y rhan fwyaf o’r amser ac felly nid oes angen cymaint o oleuadau

**Allwedd y Graff**

**Llinell felen** = Yr ynni a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn flaenorol

**Gwyrdd** = Mae’r ysgol yn defnyddio llai o ynni na’r llynedd

**Coch** = Mae’r ysgol yn defnyddio mwy o ynni na’r llynedd

**Creu Syniadau am Arbed Ynni**

**Camau a fedrai helpu i arbed ynni (canllawiau ynghylch arferion da):**

- Defnyddio Pecyn Cymorth Hinsawdd yr Ysgol
- Penodi Cefnogwr Eco/Ceidwad Ynni ymhob dosbarth i sicrhau y caiff offer ei ddiffodd, bod rheiddiaduron yn glir o rwystrau ac ati.
- Defnyddio cyfrwng *Digital Energy* unwaith y mis i olrhain cynnydd
- Cofnodi darlleniadau mesuryddion – nwy, trydan a dŵr
- Hyrwyddo newidiadau yn eich ysgol – posteri, Cyngor Eco, sicrhau bod yr ysgol yn darparu darlleniadau mesuryddion unwaith y mis
- Sefydlu system o sticeri coch, oren gwyrdd i hybu dealltwriaeth o’r offer y mae angen ei ddiffodd neu beidio (sgriniau cyfrifiaduron, gorsafoedd gwefru ac ati)
- Cadw rheiddiaduron yn glir o unrhyw ddillad/cyfarpar ac ati
- Glanhau rheiddiaduron yn rheolaidd - llwch, pensiliau ac ati
- Cau drysau a ffenestri pan mae’r gwres ymlaen
- Diffodd goleuadau wrth adael ystafell - meddwl am y golau naturiol cyn eu troi ymlaen (oni bai fod synwyryddion ar waith yn yr ysgol)
- Sicrhau y caiff tapiau eu cau ar ôl eu defnyddio
- Sicrhau y diffoddir yr holl offer ar ddiwedd y dydd/tymor
- Mynd drwy eich asesiad DEC diweddaraf:
  → Pa argymhellion a wnaethpwyd?
  → A fyddai modd rhoi unrhyw rai ohonynt ar waith?
- Cofnodi darlleniadau mesuryddion ar *Digital Energy* a thrafod hynny yn y dosbarth
- Agor bleinds i adael golau dydd i mewn yn lle defnyddio’r goleuadau, os oes modd
- Troi tymheredd (thermostat) rheiddiaduron i lawr os oes modd cyn agor ffenestri (i reoli tymheredd)
- Bod y Cyngor Eco’n mynd ati bob tymor i fonitro cydymffurfiaeth - annog camau allweddol fel diffodd goleuadau, er enghraifft.

- Trafod camau gweithredu yn y dosbarth/gwasanaeth/cyfarfodydd staff.

## Termau Defnyddiol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Ynni Nad yw'n Adnewyddadwy | Ynni sy'n dod o adnodd naturiol cyfyngedig, gan gynnwys glo, olew a nwy naturiol; fe'i gelwir hefyd yn danwydd ffosil. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n llawer cynt nag y mae tanwydd newydd yn ffurfio. |
| Ynni Adnewyddadwy | Ynni sy'n dod o adnoddau naturiol nad ydynt yn diflannu'n gynt nag y'u defnyddir, gan gynnwys golau'r haul, gwynt a gwres geothermol (gwres o dan ddaear). |
| Newid Hinsawdd | Newid hirdymor yn nhymheredd cyfartalog y Ddaear a'r tywydd. |
| Effeithlonrwydd Ynni | Defnyddio llai o ynni i gyflawni'r un dasg ac atal gwastraffu ynni. |
| Defnyddio Ynni | Y swm o ynni a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer rhyw weithgaredd neu broses benodol. |

## DOLENNI AC ADNODDAU

**Cefndir a Diffiniadau**

*What is energy* – Gwybodaeth gyffredinol am ynni; mae'r adran ynglŷn â thrydan yn fwy perthnasol.

*How is Electricity Made* (9:44 o funudau)

*Fossil fuels & Renewable energy* (1:50 o funudau)

Dadansoddiad Byw o Grid Trydan y Deyrnas Unedig

*How to Save Energy BBC Bitesize* – sydd hefyd yn cynnwys fideo am arbed ynni (2:37 o funudau)

Adran Addysg y Deyrnas Unedig: *Tips to Reduce Water and Energy Use within Schools*

National Energy Action: School & Education Resources (CA1-5)

Llywodraeth Cymru: Gweithredu ar Hinsawdd Cymru

**Dolenni cyswllt i adnoddau Sir y Fflint**

Digital Energy

Canllawiau Digital Energy

Pecyn Cymorth Hinsawdd i Ysgolion

Hafan Newid Hinsawdd